**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0636/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Mawrth 2025

Annwyl Andrew,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025 ("Rheoliadau 2025").

Rydym wedi derbyn llythyr gan y Farwnes Sue Hayman, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion Cymru.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir o dan y canlynol:

- Erthygl 144(6) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('yr OCR').

Diben Rheoliad 2025 yw ymestyn cyfnod gweithredu gwiriadau mewnforio ar rai nwyddau iechydol a ffytoiechydol penodol sy'n dod i Brydain Fawr ('DU') o rai gwledydd, tan 31 Ionawr 2027.

Bydd Rheoliadau 2025 yn ymestyn y cyfnod graddoli trosiannol rhwng 1 Gorffennaf 2025 a 31 Ionawr 2027. Bydd yr estyniad hwn yn gohirio gosod gwiriadau ar nwyddau Iechydol a Ffytoiechydol a fewnforiwyd o'r UE I'r DU. Mae'r offeryn hwn hefyd yn ymestyn hawddfraint sy'n oedi'r gofyniad am wiriadau mewnforio (sy'n berthnasol i weddill gwledydd y byd) mewn perthynas â phlanhigion, cynhyrchion planhigion, neu wrthrychau eraill (megis peiriannau a cherbydau a ddefnyddiwyd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth) sy'n dod i mewn i Brydain o'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir trwy Borthladd Arfordir y Gorllewin (fel y'i rhestrir yn y diffiniad o 'borthladd perthnasol' yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) 2022) cyn 31 Ionawr 2027, yn unol â diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP). Y rhesymeg dros yr estyniad hwn yw atal unrhyw darfu ar fasnach a chaniatáu digon o amser i drosglwyddo i sail ddeddfwriaethol barhaol ar gyfer y Model Gweithredu Targed Ffiniau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw Rheoliadau 2025 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt gan Lywodraeth y DU ar bioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU yn y mater hwn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs